





Dechrau wrth fy nhraed

Y Dysgwr



Bronfenbrenner

Y dysgwr sydd yng nghalon y dysgu. Fel mae Theori Bronfenbrenner (Guy-Evans, 2020) yn dangos, mae 5 haen sy’n dylanwadu o amgylch unigolyn ac yn effeithio ar ddatblygiad corfforol, gwybyddol, emosiynol a cymdeithasol plentyn. Y ffactor fwyaf uniongyrchol dylanwadol sy’n effeithio ar fywyd unigolyn o ddydd i ddydd yw’r ‘micro system’, sef ffactorau agos i’r dysgwr fel y cartref ar Ysgol. Mae rhieni, y gymuned, a gwaith y rhieni yn effeithio haen 'meso' yr unigolyn. Mae'r Ysgol yn helpu plant i ddatblygu'r maes 'Exo' wrth gynnal clybiau ar ôl Ysgol sy'n rhoi profiadau dysgu mwy pleserus a traddodiadol i'r disgyblion. Mae'r system 'facro' yn dylanwadu ar ffactorau mwy allanol unigolyn, sef credoau'r unigolyn, y Llywodraeth a chyfreithiau. Mae'r system grono yn ffactor allanol syn newid wrth i'r unigolyn tyfu i fyny a datblygu.

Cwricwlwm Cymru

(Hwb, 2020) Mae’r dysgwyr yn dilyn Cwricwlwm Cymru sy’n pwysleisio’r pwysigrwydd bob disgybl dilyn 4 diben er mwyn bod yn "ddysgwyr uchelgeisiol, galluog”, yn ”gyfranwyr mentrus, creadigol”, yn "ddinasyddion egwyddorol, gwybodus” ac yn ”unigolion iach, hyderus”. Mae’r 4 diben yn paratoi dysgwyr am fywyd a gwaith, ac i fod yn ddinasyddion gwybodus am eu gwlad a chymdeithas.

Polisi Ymddygiad

Mae'r Ysgol leoliad gyda pholisi ymddygiad sy'n adlewyrchu ar y ffordd mae'r disgyblion yn ymddwyn o ddydd i ddydd. Mae ymddygiad y plant yn effeithio ar y gymuned o'i chwmpas oherwydd mae nhw bydd genhedlaeth y dyfodol a bydd yn dibynnu ar swyddi a chartrefi yn yr ardal leol. Mae ymddygiad plant yr Ysgol yn adlewyrchu pa fath o gymuned sydd o amgylch yr Ysgol, felly mae'n bwysig fod y plant yn ymddwyn yn dda i adlewyrchu argraff dda ar Ysgolion a chymunedau arall.

(Adroddiad Ysgol leoliad, 2020) Mae'r polisi ymddygiad wedi'i gynllunio o amgylch polisiau, arfer ac ethos ysgol, yn sicrhau fod hawliau'r plant yn cael eu parchu ar bob adeg. Prif nodau'r Ysgol yn ôl y polisi ymddygiad yw bod aelodau o gymuned yr Ysgol yn barchus, yn cael ei thrin yn deg ac yn teimlo'n ddiogel. Mae'r Ysgol yn gwobrwyo ac yn canmol plant am eu hymddygiad da gan ddefnyddio siart wobrwyo sy'n gwneud i blant deimlo'n arbennig ac yn werthfawr am ddilyn rheolau'r Ysgol ac am ymddwyn ar eu gorau.

Y Gymuned



Mae'r gymuned yn gweithio'n agos ac yn cynorthwyo'r Ysgol leoliad wrth gynnal gweithgareddau a sesiynau ar ôl Ysgol. Mae'r Ysgol yn gweithio'n agos gyda'r orsaf tân lleol, Ysbytai lleol, a'r Heddlu lleol gan fod siaradwyr yn dod mewn i'r Ysgol o bob gwasanaeth. Mae'r sesiynau yma'n helpu datblygiad cymdeithasol y plant, ac yn ôl Meggitt (2006, t.3) mae cyfathrebu yn effeithiol yn galluogi'r plant i ddysgu'r broses o ddatblygu sgiliau ac agweddau i "fyw'n ddidrafferth ag aelodau eraill o'r gymuned". Mae'r Ysgol leoliad yn mynd ar deithiau Ysgol i leoliadau addysgol a hwylus yn y gymuned syn cefnogi'r busnesau lleol. Mae'r gymuned yn llogi neuadd yr Ysgol ar gyfer Clybiau ar ôl Ysgoll ac fel hwb i'r gymuned sy'n helpu i gefnogi'r Ysgol yn ariannol. Mae'r gymuned o amgylch lleoliad yr Ysgol yn ddinasol ac yn boblogaidd. Mae yna Brifysgol yn y ddinas, yn golygu fod yna nifer o fyfyrwyr Brifysgol yn yr ardal yn ychwanegol i bobl sy'n gweithio a byw yn yr ardal yn barod. Mae adroddiad diweddaraf y Cyngor (Cyngor Abertawe, 2020) yn dangos fod 9, 435 o ddinasyddion yr ardal rhwng 16-64 allan o waith. Dangosir fod 109,800 o ddinasyddion yr ardal gyda gwaith o gasgliad gwybodaeth Medi 2020. Yng Nghymru gyfan, mae 57,000 o'r boblogaidd allan o waith, felly wrth gymharu'r ddau ffigur, mae'n amlwg fod y nifer o bobl allan o waith yn ardal yr Ysgol yn gymharol uchel wrth edrych ar faint Cymru gyfan.

Dechrau'n Deg

(Dechrau'n Deg, 2015) Mae safle 'Dechrau'n Deg' wedi'i leoli yn ardal gyfagos yr Ysgol leoliad. Ariannir gan Lywodraeth Cymru, ac mae'r gwasanaeth wedi'i thargedu i helpu plant rhwng 0-3 oed a'i theluegoedd. Pwrpas y gwasanaeth yw cefnogi plant a rheini sydd yn llai ffodus. Maent yn cefnogi sawl sector gan gynnwys rhoi cymorth i deuluoedd a phlant gydag anghenion dysgu ychwanegol, gofal plant, iaith a chwarae plant, a gofalu am maeth ac iechyd teuluoedd. Gan fod 23% o blant yr Ysgol leoliad gydag anghenion dysgu ychwanegol, a 78% o blant yn derbyn prydau bwyd am ddim, mae gwasanaeth Dechrau'n Deg yn obaith i nifer o deuluoedd yr Ysgol.

Epstein

Mae theori Epstein yn cynrychioli sut mae'r Ysgol, y cartref ar gymuned yn rhyngweithio gyda'i gilydd er mwyn cael perthynas agos i gefnogi'r plentyn. Credwyd Epstein (Scott, 2011) fod cyfraniad y rhiant yn addysg eu plentyn yn gweithredu fel fframwaith o lwyddiant academiaidd. Er mwyn sicrhau llwyddiant academiaidd, mae'r Ysgol leoliad yn defnyddio poster' Llais y Disgybl'. Bwriad y poster yw rhoi'r hawl i'r disgyblion ddewis pa themâu maent am ddysgu yn eu gwersi, er mwyn sicrhau bod y disgyblion yn gwrando'n astud mewn gwersi ac yn dangos diddordeb yn yr hyn maent yn dysgu. Wrth ddefnyddio llais y disgybl, maent yn sicrhau fod lles y disgyblion yng nghalon y dysgu, yn ogystal â rhoi hawliau'r disgyblion yn y blaen.

Yr Ysgol

(Gwefan Ysgol leoliad, 2017) “Dyro dy law i mi, ac mi awn i ben y mynydd”. Mae’r ethos yma yn cynrychioli neges bwysig yn cynnig cymorth i bob disgybl cyrraedd eu potensial llawn, ac i deimlo’n rhan o deulu estynedig yr Ysgol.

Lleoliad

(Gwefan Ysgol leoliad, 2017) Mae’r Ysgol leoliad wedi’i leoli yn Llansamlet ger Abertawe. Mae ardal Abertawe yn ddinasol ac yn brysur, gyda phoblogaidd uchel yn yr ardal i gymharu ar wlad. Yn 2017, adeiladwyd Ysgol newydd gyda 16 dosbarth dysgu gyda'r bwriad i ymuno’r Meithrin a’r Ysgol Gynradd i fod yn un Ysgol er mwyn leddfu’r plant a'i chefnogi wrth iddynt symud i fyny'r Ysgol.

Disgyblion

Mae'r Ysgol leoliad gyda 560 o ddisgyblion gan gynnwys 75 o ddisgyblion y meithrin. Mae 23% o ddisgyblion wedi'i hadnabod gydag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r Ysgol yn cynnig profion ar ddechrau tymor pob blwyddyn i adnabod y plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r Ysgol yn cynnig cymorth ychwanegol mewn gwersi i blant ag anghenion ychwanegol, ac yn cadw mewn cyswllt agos gyda'r rhieni. Mae 78% o ddisgyblion yn derbyn prydau bwyd am ddim, sy'n golygu fod yr Ysgol yn cefnogi'r disgyblion a rhieni sydd methu fforddio prynu bwyd i alluogi dysgu'r disgyblion.

Iaith

Mae 10% o’r disgyblion yn dod o gartrefi Cymraeg. (Llywodraeth Cymru, 2017/18) Yn 2017, gwnaeth Llywodraeth Cymru cynllunio rhaglen o'r enw 'Cymraeg 2050' yn gosod targed i Gymru cael 50 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Pwrpas y rhaglen yw cynyddu'r cyfanswm o siaradwyr Cymraeg, ac i gynyddu defnydd y iaith. Y disgwyliadau yw erbyn 2050 bydd 14,000 o ddysgwyr cyfrwng Cymraeg ym mhob grŵp oedran erbyn 2050, gan gynnwys Ysgolion. (Hwb, 2020) Mae gan y pennaeth y dewis os maent am gynnwys Saesneg fel rhan o gwricwlwm yr Ysgol, sy'n golygu fod mwyafrif y gwersi yn y Gymraeg sy'n hysbysu’r iaith ym mhellach yn y genhedlaeth newydd. Mae'r Ysgol leoliad yn cynnal 'Cynllun Clonc' sy'n helpu a chynorthwyo disgyblion i ddysgu Cymraeg a geirfa newydd o'r Meithrin ymlaen.

Athrawon a Rhieni

Yn ôl adroddiad Estyn (Estyn, 2018) mae'r Ysgol leoliad yn gweithio'n agos gyda rheini'r disgyblion. Mae'r Ysgol yn cynnal nosweithiau rheini sy'n gwella dealltwriaeth y rheini o strategaethau darllen, rhifedd pen, a materion cyfroes fel e-diogelwch. Mae'r Athrawon yn danfon llyfrau gwaith y disgyblion adref ar ddechrau hanner tymor er mwyn i'r rhieni trafod datblygiad eu plentyn adref. Mae'r Ysgol yn cynnal wythnos 'dewch a'ch rhiant i'r Ysgol' sy'n helpu codi ymwybyddiaeth y rhiant o sut mae'r Athrawon yn addysgu ei phlentyn. Mae'r Ysgol yn cynnal clybiau ar ôl ysgol sy'n helpu rhieni gyda blaenoriaethau arall yn y nos. Mae cymorth ar gael i rieni sydd ei hangen, gan gynnwys prydau bwyd am ddim i helpu teuluoedd llai ffodus yn ariannol. Mae'n bwysig fod y rhieni yn ymwybodol o ddatblygiad eu plant yn yr Ysgol fel eu bod yn gallu rhoi cymorth i'w plant os oes angen, ac yn siarad â'i phlant am eu datblygiad yn yr Ysgol yn gyson sy'n helpu perthynas y plentyn ar riant i fod yn gryf ac yn agos.

Rhestr Gyfeirnod

Adroddiad Ysgol Lleoliad, (2020) *Polisi Ymddygiad Cadarnhaol*. Ysgol Gynradd Lôn Las: UDRH yr Ysgol.
Cyngor Abertawe (2020) *Labour Market Statistics: October 2020*. Llundain: Department for Work and Pensions.

Dechrau'n Deg, (2015) *Croeso i Ddechrau'n Deg* [Y gwasanaethau a gynigiwn yn Dechrau'n Deg] Ar gael yn: <https://www.flyingstartcardiff.co.uk/cy/gwasanaethau/> (Darllenwyd: 21 Rhagfyr 2020).

Dechrau'n Deg (2015) *Croeso i Ddechrau'n Deg* [Amdanom ni] Ar gael yn: <https://www.flyingstartcardiff.co.uk/cy/amdanom-ni/> (Darllenwyd: 21 Rhagfyr 2020).

Estyn. (2018) *Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru*. Ar gael yn: <https://primarysite-prod-sorted.s3.amazonaws.com/ysgol-gynradd-gymraeg-lon-las/UploadedDocument/993c574d7b94440faf7db04e75062a03/ysgol-gynradd-gymraeg-lon-las-adroddiad-estyn.pdf> (Darllenwyd: 17 Rhagfyr 2020).

Guy-Evans, O. (2020) 'Bronfenbrenner's Ecological Systems Theory' *Simply Psychology*, 9 Tachwedd. Ar gael yn: <https://www.simplypsychology.org/Bronfenbrenner.html> (Darllenwyd: 14 Rhagfyr 2020).

Gwefan Ysgol Lleoliad (2017) *Prosbectws Ysgol Gynradd Gymraeg Lôn Las*. Ar gael yn: <https://www.ygglonlas.co.uk/prosbectwsprospectus/> (Darllenwyd: 15 Rhagfyr 2020).

Hwb (2020) *Cwricwlwm i Gymru* [crynodeb o'r ddeddfwriaeth arfaethedig] Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/crynodeb-o-r-ddeddfwriaeth-arfaethedig/> (Darllenwyd: 14 Rhagfyr 2020).

Llywodraeth Cymru. (2017/18) *Cymraeg 2020: A Million Welsh Speakers*. Ar gael yn: <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-03/cymraeg-2050-a-million-welsh-speakers-annual-report-2017-18.pdf> (Darllenwyd: 17 Rhagfyr 2020).

Meggit, C. (2006) *Datblygiad Plant Arweinlyfr Darluniadol*. Glamorgan: Hartley Wilprint

Pixabay(2013) *Footprints*. Ar gael yn: <https://pixabay.com/illustrations/footprint-footprints-outline-shape-163589/> (Gwelwyd: 12 Rhagfyr 2020).

Psychology notes HQ (2013) *Bronfenbrenner's Ecological Systems Theory*. Ar gael yn: <https://www.psychologynoteshq.com/bronfenbrenner-ecological-theory/> (Gwelwyd: 14 Rhagfyr 2020).

Scott, H (2011) 'Parent involvement in Children's Schooling: Parents Involvement in Children's Schooling: An Investigation Measurement Equivalence Across Ethnic Groups' *Graduate These And Dissertations*, 8 Rhagfyr. Ar gael yn: <https://scholarcommons.usf.edu/etd/3339/>

Workday(2020) *Customer Collaboration Support Community*. Ar gael yn: <https://www.workday.com/en-za/customer-experience/community.html> (Gwelwyd: 18 Rhagfyr 2020)